Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Rhostryfan

**Rhostryfan**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL54 7LR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2014**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Rhostryfan sydd oddeutu chwe milltir o dref Caernarfon yng Ngwynedd.

Mae 86 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 16 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn ddosbarth meithrin ac yn dri dosbarth oed cymysg. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae oddeutu tri chwarter o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r ganran genedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae 7% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Rhostryfan yn 2013-2014 yw £3,518. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Rhostryfan yn safle 88 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1997.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Ebrill 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda;
- bron pob disgybl yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- safonau ymddygiad yn dda gyda disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd;
- yr addysgu'n gyson dda a threfniadau effeithiol ar gyfer defnyddio gwybodaeth asesu ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu;
- ystod eang o brofiadau dysgu diddorol yn bodloni anghenion pob dysgwr yn llwyddiannus;
- yr ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion;
- darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a'r
- ethos cynhwysol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- nodau ac amcanion strategol clir ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen a rhoi gwelliannau ar waith;
- y pennaeth yn blaenoriaethu'n effeithiol er mwyn cynnal cyfeiriad strategol yr ysgol;
- llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel cyfaill beirniadol ac yn cynnig lefel briodol o her i'r ysgol;
- hunanarfarnu'n drwyadl ac wedi gwreiddio'n gadarn yng ngwaith yr ysgol;
- ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i arfarnu a gwella'u gwaith

A2 Sicrhau bod adborth ar waith ysgrifenedig yn dangos yn glir i ddisgyblion sut i'w wella

A3 Sicrhau bod gan ddisgyblion lais cryfach ar gynnwys cwricwlwm yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau gyda bron pob un erbyn diwedd y Cyfnod yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae pob disgybl yn ysgrifennu mewn modd dealladwy ac yn defnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae llawer yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Erbyn blynyddoedd 5 a 6, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at nifer briodol o ddibenion ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith.

Mae medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r ieithwedd fathemategol gywir wrth siarad am eu syniadau ac yn hyderus iawn wrth ddarllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100. Maent yn defnyddio unedau safonol gyda manwl gywirdeb cynyddol i fesur gwrthrychau o wahanol feintiau ac maent yn hyderus iawn wrth ddisgrifio priodoleddau siapiau solet a rhai gwastad. Mae gallu'r disgyblion hyn i drosglwyddo eu medrau mathemategol i weithgareddau chwarae a datrys problemau yn yr ystafell dosbarth yn datblygu'n dda.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i drosglwyddo eu medrau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd pob dydd, yn dda. Mae ganddynt afael sicr ar rif a mesur a dônt yn fwyfwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadau pen. Mae medrau trin data'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un yn fedrus iawn wrth ddefnyddio meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gasglu, dehongli a chyflwyno data.

Mae bron pob disgybl yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cydweithio'n gytûn ar dasgau, yn canolbwyntio'n dda ac yn effro i holi a gofyn cwestiynau. Wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau, megis darganfod effaith ffrithiant ar y grym sydd ei angen i lusgo esgid ar hyd gwahanol arwynebau, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau meddwl. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sydd, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn gallu arfarnu eu gwaith ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella.

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant 5 disgwyliedig a'r deilliant 6 uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Er bod perfformiad yn y ddau faes yn 2012 yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, roedd wedi codi i'r 25% uchaf yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2010 i 2013. Mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is. Yn 2013, roedd perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig ac ar y lefel 5 ar gyfer disgyblion mwy abl yn y 25% uchaf ar gyfer bron pob un o'r pedwar pwnc.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w hiechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, maent yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus iawn wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn arwain eu dysgu eu hunain wrth iddynt ddewis pa weithgaredd y dymunent ei dilyn.

Mae gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Er bod y cyngor ysgol yn cyflawni ei waith yn gydwybodol, ychydig o ddylanwad sydd gan ddisgyblion ar gynnwys cwricwlwm yr ysgol.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi gostwng ychydig yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% is yn 2012 ond yn y 25% isaf yn 2013.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol sy'n cwrdd ag anghenion pob dysgwr yn llwyddiannus. Mae cynlluniau gwaith manwl a weithredir ym mhob dosbarth yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Caiff profiadau dysgu

disgyblion eu cefnogi'n dda gan nifer o ymweliadau gwerthfawr â lleoedd megis Prifysgol Bangor a Chastell Penrhyn, a hefyd gan arbenigwyr sy'n galw i'r ysgol i weithio gyda disgyblion.

Mae cynlluniau priodol ar waith i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd yng nghyfnod allweddol 2 i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer medrau TGCh a medrau meddwl yn effeithiol ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r lle amlwg a roddir ym mhrofiadau disgyblion i'r dimensiwn Cymreig. Mae ffocws cryf ar hanes a diwylliant Cymru ym mhob thema a chaiff disgyblion eu hannog i gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol. Mae'r ysgol yn ailgylchu papur a cherdyn yn rheolaidd ac mae'n cymryd camau addas i arbed ynni.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn batrymau iaith da i ddisgyblion ac mae'r berthynas weithio rhwng oedolion a disgyblion yn dda iawn. Mae athrawon yn defnyddio amrediad eang o strategaethau addysgu mewn ffordd ddychmygus ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn heriol ac yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, mae'r athrawon a'r staff cymorth yn llwyddo i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu'n dda. Ym mhob dosbarth, gwna'r cymorthyddion dysgu gyfraniad arwyddocaol tuag at wella dysgu disgyblion.

Mae trefniadau effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion unigol ac mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn bwrpasol ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu. Er bod athrawon cyfnod allweddol 2 yn marcio gwaith ysgrifenedig disgyblion yn rheolaidd, nid yw'r adborth i'r disgyblion bob tro yn dangos yn ddigon clir sut i'w wella.

Mae'r drefn ysgol gyfan fanwl a ddefnyddir ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol yn galluogi athrawon i bennu targedau personol i ddisgyblion unigol ac i ymyrryd yn bwrpasol os oes amheuon ynghylch tangyflawni.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn gynnes a chroesawgar a bod

anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae’r cyfleoedd rheolaidd a gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau. Mae’r sesiynau addoli ar y cyd yn arwyddocaol o ran creu awyrgylch gofalgar ac ysbrydol.

Mae gweithdrefnau a pholisïau priodol er mwyn sicrhau gofal a chymorth ar gyfer holl ddisgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio asiantaethau a gwasanaethau allanol yn effeithiol i addysgu’r plant am agweddau ar ddiogelwch personol. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy’n sicrhau bod ganddynt fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm a’u bod yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Caiff disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol eu hadnabod yn fuan a darperir amrywiaeth dda o brofiadau ysgogol ar eu cyfer. Mae’r cynlluniau addysg unigol o safon dda ac yn sicrhau mewnbwn effeithiol disgyblion wrth lunio targedau addas. Mae’r ysgol wedi dechrau defnyddio strategaeth bwrpasol yn ddiweddar ar gyfer adnabod disgyblion mwy abl a thalentog.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, gyfeillgar a chroesawgar lle mae’r oedolion a’r disgyblion yn ymdrin â’i gilydd gyda pharch a gofal. Mae ethos cynhwysol sy’n sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal i’r holl ddarpariaeth a mynediad llawn i’r cwricwlwm. Mae gan yr ysgol gynlluniau effeithiol sy’n arwain at ethos goddefgar, cydraddoldeb a gwerthfawrogiad o amrywiaeth.

Er bod gofod yn brin yn yr ystafelloedd dysgu, mae’r ysgol yn llwyddo yn arbennig o dda i greu amgylchedd addysgol cadarnhaol. Gwneir defnydd da o bob gofod sydd ar gael ac mae’n ychwanegu at hyn drwy fanteisio ar waith creadigol y disgyblion i greu amgylchedd dysgu lliwgar a deniadol.

Mae ystod eang o offer ac adnoddau addas yn yr ystafelloedd dysgu sy’n cael eu defnyddio’n bwrpasol gan athrawon i hyrwyddo a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Caiff yr ardal ddysgu y tu allan, ynghyd â thir yr ysgol a’r ardal leol, eu defnyddio’n helaeth i ychwanegu at brofiadau dysgu disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth, staff a’r corff llywodraethol nodau ac amcanion strategol clir ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen a rhoi gwelliannau ar waith. Mae’r pennaeth yn

blaenoriaethu'n effeithiol er mwyn cynnal cyfeiriad strategol yr ysgol ac mae aelodau staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol iawn ac yn chwarae rhan lawn yn natblygiad yr ysgol. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau bod cydweithio adeiladol ar flaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i gwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae datblygu'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen, gwella'r asesu ar gyfer dysgu a chynllunio'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd, i gyd yn rhan o'r cynllun datblygu cyfredol.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ymrwymiad cryf i'w cyfrifoldebau a gwybodaeth glir am ddata perfformiad yr ysgol, ei chryfderau a'i gwendidau. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n effeithiol i'r broses hunanarfarnu. Mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol ac yn cynnig lefel briodol o her i'r pennaeth a'r staff.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r hunanarfarnu yn drwyadl ac wedi gwreiddio'n gadarn yng ngwaith yr ysgol. Mae prosesau clir a phwrpasol i arfarnu safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r pennaeth, y staff addysgu a'r llywodraethwyr i gyd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y prosesau hynny.

O dan arweiniad y pennaeth, mae staff a llywodraethwyr yn dadansoddi data perfformiad yn fanwl, yn monitro'r ddarpariaeth ac yn adolygu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae hyn yn arwain at nodi blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer gwella.

Mae'r cyfleoedd a gaiff y rhieni i roi eu barn ar waith yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddealltwriaeth yr ysgol o'r ddarpariaeth a safonau. Mae'r holiaduron ar agweddau disgyblion tuag at ddiogelwch ac ymarfer corff yn rhoi darlun clir i'r ysgol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer lles.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol o ansawdd da. Mae'n cyfleu darlun gwrthrychol o gryfderau'r ysgol ac yn nodi'n glir yr agweddau hynny sydd angen gwelliant.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys nifer rhesymol o flaenoriaethau clir a phwrpasol. Mae'r cynllun yn adolygu targedau blynyddoedd blaenorol ac yn nodi materion pellach sydd angen gweithredu arnynt. Mae ynddo hefyd flaenoriaethau clir am y tair blynedd nesaf ynghyd â manylion perthnasol am ddyraniad cyllid ar gyfer cyflawni'r gwaith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Trwy gydweithio effeithiol, mae'r pennaeth wedi llwyddo i ennill cefnogaeth ystod o bartneriaethau o fewn y gymuned ac mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r rhieni'n gefnogol iawn i holl waith yr ysgol ac wedi cyfrannu'n helaeth i brynu adnoddau dysgu, er enghraifft adnoddau TGCh ac offer mawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cydweithio agos â'r gymuned hefyd wedi sicrhau bod yr ysgol yn medru defnyddio neuadd y pentref a'r parc chwarae yn ddyddiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth i'r disgyblion.

Mae'r cylch meithrin yn cwrdd yn yr ysgol ac mae'r cydweithio agos yn golygu bod y disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn yn yr ysgol.  Mae cysylltiadau cryf ag ysgol uwchradd y teulu a'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn eu paratoi'n drwyadl ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion eraill y teulu i safoni a chymedroli gwaith disgyblion ac mae hyn yn cryfhau sustemau asesu'r athrawon.

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda chymdeithasau a mudiadau lleol.  Enghreifftiau da o hyn yw'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hardal trwy waith archeolegol lleol ac i ddatblygu eu medrau chwaraeon dŵr trwy fynychu cyrsiau ar y Fenai.  Mae athrawes gelf yn ymweld yn wythnosol i sicrhau darpariaeth arbenigol a datblygu medrau creadigol y disgyblion ac mae effaith hyn i'w gweld yn glir yn ansawdd uchel yn yr arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus, ac mae hyn wedi galluogi'r ysgol i gynnal y lefel staffio bresennol a sicrhau darpariaeth briodol i'r ystod gyfan o oedrannau.  Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer y disgyblion er mwyn bodloni gofynion holl agweddau'r cwricwlwm ac mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o'r adeilad.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion y staff addysgu a'r staff cynorthwyol ac mae cysylltiad agos rhwng eu targedau nhw a blaenoriaethau'r ysgol.  Mae defnydd da o arbenigedd staff ac mae'r cynorthwywyr yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu'n briodol.  Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r staff wedi elwa o waith rhwydweithio proffesiynol o fewn yr ysgol.  Maent yn arsylwi ar arferion addysgu da ei gilydd ac, yn sgil hynny, yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth.  Byddant yn safoni gwaith disgyblion yn rheolaidd er mwyn cael darlun cliriach o safonau ar draws yr ysgol.  Mae'r staff yn cymryd pob cyfle i ddatblygu eu medrau fel darparwyr ac i fynychu cyrsiau.

O ystyried deilliannau da'r disgyblion a'r monitro gofalus ac effeithiol o'r cyllid, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant 5 disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni ar y deilliant 6 hefyd yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol yn y ddau faes. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen, sef deilliant 5 neu uwch yn y ddau faes dysgu, yn llawer uwch na pherfformiad y teulu a Chymru gyfan.

O gymharu ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013 yn y 25% uwch yn y ddau faes.

Llwyddodd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 i gyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013. Mewn Cymraeg, roedd perfformiad yr ysgol ychydig yn is na pherfformiad ysgolion y teulu a Chymru gyfan. Gyda dros hanner y garfan yn cyrraedd lefel 5 yn y pedwar maes, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch yn rhagori'n sylweddol ar berfformiad ysgolion y teulu a chanlyniadau Cymru gyfan.

Er bod cyfran disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (dangosydd y pynciau craidd) wedi amrywio'n sylweddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol gan amlaf wedi bod cystal neu'n well na pherfformiad y teulu a Chymru gyfan. Ac eithrio 2009, roedd y gyfran yn cyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel 5 uwch mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y cyfnod yn uwch na pherfformiad y teulu a Chymru gyfan. Ac eithrio 2013, bu perfformiad mewn Saesneg ar lefelau 4 a 5 yn is na pherfformiad y teulu a Chymru gyfan.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel uwch o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2010 i 2012. Mae perfformiad yn y pedwar pwnc wedi amrywio rhwng y 25% uwch a'r 50% is. Yn 2013, roedd perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ymhlith y 25% uchaf tra roedd Cymraeg yn y 50% is.

Nid oedd unrhyw duedd cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 35 | 34<br>97%<br>98% | 1<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 33 | 31<br>94%<br>92% | 2<br>6%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 35 | 35<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 35 | 35<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 35 | 33<br>94%<br>96% | 2<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 33 | 30<br>91%<br>96% | 3<br>9%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 35 | 35<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 35 | 34<br>97%<br>98% | 1<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 34 | 30<br>88%<br>91% | 4<br>12%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 35 | 32<br>91%<br>95% | 3<br>9%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 34 | 31<br>91%<br>77% | 3<br>9%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 35 | 32<br>91%<br>84% | 3<br>9%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 24 | 15 | 7 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 29% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 24 | 20 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 24 | 17 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 24 | 16 | 6 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 67% | 25% | 0% | 4% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 23 | 11 | 9 | 2 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 39% | 9% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 24 | 15 | 6 | 2 | 1 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 25% | 8% | 4% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 24 | 15 | 6 | 2 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 25% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 22 | 10 | 6 | 3 | 2 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 45% | 27% | 14% | 9% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 13 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 24 | 10 | 10 | 1 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 42% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 24 | 14 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 6 | 6 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 40% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 12 | 11 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 46% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 24 | 15<br>62% | 8<br>33% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 24 | 7<br>29% | 8<br>33% | 5<br>21% | 0<br>0% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 24 | 13<br>54% | 9<br>38% | 1<br>4% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 16 | 7<br>44% | 2<br>12% | 3<br>19% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 24 | 13<br>54% | 8<br>33% | 1<br>4% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 23 | 16<br>70% | 5<br>22% | 2<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Aled Davies | Arolygydd Tîm |
| Huw Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cymheiriaid |
| Trystan Larsen | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.